# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


03/05/2022

## Llythyr diwedd tymor – diwedd cyfnod fel pennaeth / End of term – end of an era as Headteacher letter.

Annwyl Riant / Warcheidwad,
Rwyf wedi ceisio rhoi pin ar bapur droeon dros yr wythnosau diwethaf i ysgrifennu fy llythyr olaf atoch fel pennaeth YGG Parc y Tywyn, serch hynny mae wedi bod yn anodd iawn! Fel y gwyddoch, yfory fydd fy niwrnod olaf fel pennaeth YGG Parc y Tywyn gan y byddaf yn ymuno â Thîm Gwella Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin fel Ymgynghorydd Cefnogi Addysg ym mis Medi. Mae'r Corff Llywodraethol ar hyn o bryd yn dilyn y broses recriwtio ar gyfer Pennaeth newydd ac yn gobeithio penodi ymgeisydd cryf i gymryd drosodd swydd Pennaeth YGG Parc y Tywyn ym mis Ionawr 2023.

Tra bod y broses hon yn mynd ymlaen, bydd Miss Roberts yn camu i fyny fel pennaeth dros dro o fis Medi ac yn cael ei chefnogi gan Mrs E Zych, sydd wedi'i phenodi'n ddirprwy bennaeth dros dro, a Miss C James a Miss E Williams sy'n aelodau o'r uwch dîm rheoli. Mae'r ysgol mewn dwylo diogel a bydd eu gwybodaeth a'u sgiliau yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ffynnu trwy sicrhau profiadau pwrpasol sy'n herio pawb i lwyddo. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu hymrwymiad i'r ysgol a'u brwdfrydedd wrth helpu i lunio a datblygu'r ysgol yn ystod fy nghyfnod fel pennaeth.

Mae wedi bod yn fraint cael arwain ysgol mor fywiog gyda disgyblion mor frwdfrydig ac ymgysylltiol, wedi'u cefnogi a'u herio gan staff gofalgar ac ymroddedig. Rwy'n hynod falch o'r staff sydd gennym yma yn YGG Parc y Tywyn sy'n aml yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddynt i sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau cyfoethog o fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae eu hymroddiad, ymrwymiad ac egni yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal a'i annog i anelu at fod y gorau y gall fod. Mae'r ddwy flynedd a hanner diwethaf wedi bod yn her enfawr, ond fel "Un Tîm" rydym wedi goresgyn rhwystr ar ôl rhwystr er lles ein disgyblion. Rwy'n dymuno gwyliau haf heddychlon ac ymlaciol i bob un o'r tîm yma, a gobeithio y bydd eu batris yn cael eu llenwi'n llawn yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Mae bod yn bennaeth ysgol yn gymaint o fraint ac yn rôl werth chweil. Rhaid diolch i chi fel rhieni a ffrindiau'r ysgol am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad dros y blynyddoedd diwethaf – mae'n sicr wedi gwneud fy swydd yn haws! Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol, disgyblion a rhieni yn sylfaen bwysig i lwyddiant parhaus yr ysgol. Oherwydd eich ymgysylltiad, mae ein plant yn dysgu'n well, yn cyflawni mwy, yn cael mynediad i ystod ehangach o weithgareddau ac yn gyffredinol mae ganddynt fwy o gymhelliant i ddysgu. Mae plant yn treulio ar gyfartaledd 15% o'u hamser effro yn yr ysgol – mae'r gweddill yn cael ei dreulio gyda chi'ch hun. Mae'r hyn maen nhw'n ei ddysgu gartref yn darparu sylfaen hanfodol y gallwn ni fel ysgol adeiladu arni. Hebddo, ni all ein disgyblion na'r ysgol gyrraedd ei llawn botensial. Felly, diolch am eich partneriaeth a diolch am feithrin eich ymddiriedaeth yn YGG Parc y Tywyn. Diolch hefyd am eich dymuniadau, geiriau caredig, cardiau a'r anrhegion yr wyf wedi derbyn yr wythnos hon.

Hoffwn ddiolch i aelodau diwyd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sydd wedi bod yn hynod effeithiol yn cydweithio gyda'r ysgol er budd y plant i godi arian ac i brynu adnoddau er lles y disgyblion. Mae'r aelodau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i addysg eich plentyn ac yn helpu i ddatblygu'r ysgol ymhellach. Hoffwn ddiolch i bob aelod o'r gymdeithas fach ond gweithgar a selog hon am eu hamser, eu parodrwydd a'u cymhelliad dro ar ôl tro.

Yn olaf rhaid rhoi clod mawr i'r disgyblion eu hunain sy'n gwneud eu gorau glas ac sydd wedi ymrwymo i'r ysgol, eu gwaith a'r cyfleoedd a roddir iddynt. Mae eich plant wedi bod yn ardderchog eleni a dylech fod yn

falch iawn ohonynt, fel finnau. Ar ran pob un ohonom, hoffwn hefyd ddymuno pob llwyddiant i'r dyfodol i'r disgyblion a fydd yn ein gadael yfory.

I orffen, fy adlewyrchiad cyffredinol o fod yn bennaeth yn YGG Parc y Tywyn yw balchder gyda chefnogaeth aruthrol gan staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Hoffwn ddiolch i chi gyd am roi'r cyfle i mi arwain yr ysgol arbennig hon. Dymunaf y gorau i chi ar gyfer y dyfodol ac edrychaf ymlaen at glywed a gweld yr ysgol yn datblygu yn y dyfodol.

***C Davies***
Pennaeth / Headteacher

*******************************************************************************

*Dear Parent / Guardian,*
*I have tried to put pen to paper numerous times over the last few weeks to write my final letter to yourselves as headteacher o YGG Parc y Tywyn, however it has proven very difficult! As you are aware, tomorrow will be my last day as headteacher at YGG Parc y Tywyn as I will be joining Carmarthenshire County Council School Improvement Team as an Education Schools Advisor in September. The Governing Body is currently following the recruitment process for a new Head Teacher and hope to appoint a strong candidate to take over the position of Headteacher at YGG Parc y Tywyn in January 2023.*

*Whilst this process in underway, Miss Roberts will step up as acting headteacher as of September and will be supported by Mrs E Zych, who has been appointed as an interim deputy headteacher, and Miss C James and Miss E Williams who are members of the schools senior management team. The schools is in safe hands and their knowledge and skills will ensure that the schools continues to flourish through ensuring purposeful experiences which challenges everyone to succeed. I would like to thank each and everyone of them for their commitment to the school and their enthusiasm in helping shape and develop the school during my tenure.*

*It has been a privilege to lead such a vibrant school with such enthusiastic and engaging pupils, supported and challenged by caring, dedicated staff. I am immensely proud of the staff that we have here at YGG Parc y Tywyn who often go way above and beyond what is expected of them to ensure that the children have an array of rich experiences both within and outside of the classroom. Their dedication, commitment and energy ensures that every child is valued equally and encouraged to aspire to be the best they can be.* The last two and a half years have been a huge challenge, but as "One Team" we have overcome hurdle after hurdle for the benefit of our pupils. I wish each and every one the team here a peaceful and relaxing summer break, and I hope that their batteries recharge to full capacity ready for the new academic year.

Being a headteacher of a school is such a privilege and a rewarding role. I must thank you as parents' and friends of the school for your support and cooperation over the last few years – it certainly has made my job easier! *The partnership between the school, pupils and parents is an important foundation in the continual success of the school. Due to your engagement, our* children learn better, achieve more, access a wider range of activities and generally are better motivated to learn. *Children spend on average 15% of their waking time in school – the remainder is spent with yourselves. What* they learn at home provides an essential foundation on which we as a school can build. Without it, neither our pupils nor the school can reach it's full potential. Therefore, thank you for your partnership and thank you for instilling your trust in YGG Parc y Tywyn. May I also than you for your kind words, cards and gifts which I have received this week.

*I would like to thank the diligent members of the PTA who have been highly effective in working with the school in the interest of the children to raise funds and to buy resources for the benefit of the pupils. These members are making a valuable contribution to your child's education and help develop the school further.*

*May I thank each and every member of this small yet hardworking and devout association for their time, readiness and motivation time and time again.*

*Finally a big credit has to be given to the pupils themselves who do their utmost and are committed to the school, their work and the opportunities given to them. Your children have been excellent this year and you should be very proud of them, as am I. On behalf of us all, I would also like to wish the pupils who will be leaving us tomorrow every success for the future.*

*My overall reflection of being headteacher at YGG Parc y Tywyn is pride with overwhelming support from staff, parents, governors and the wider community. I would like to thank you all for giving me the opportunity to lead this amazing school. I wish you all the very best for the future and I look forward to hearing and seeing the school develop in the future.*

*Yours sincerely,*

***C Davies***
Pennaeth / Headteacher